# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Cynghorydd Robert Smith**

**Ward: Rest Bay Porthcawl**

**Plaid: Annibynnol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn **2024**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**<u>Y Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Ward Rest Bay ar 5 Mai 2022 ac rwyf wedi rhoi cymorth i drigolion Rest Bay mewn nifer o ffyrdd ac wedi mynychu Gweithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi cynorthwyo fy natblygiad i.

**<u>Gweithgareddau Etholaethol</u>**

Rwy'n falch fy mod wedi helpu fy etholwyr ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys yr isod:

- Nifer o dyllau yn y ffordd
- Teithwyr yn Rest Bay
- Parcio anghyfreithlon ar dir comin Rest Bay, sydd bellach wedi'i ddatrys i raddau helaeth
- Nifer o broblemau ailgylchu
- Nifer o faterion casglu gwastraff
- Pafin anwastad
- Problemau gyda goleuadau
- Materion cynllunio
- Gwella'r ffordd o amgylch traeth Rest Bay
- Sicrhau bod y lonydd a'r lonydd cefn yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau mynediad

**<u>Mentrau a Gweithgareddau Arbennig</u>**

Rwyf wedi bod yn gweithio ar geisio gwella problemau parcio ceir o amgylch traeth Rest Bay ac rwy'n parhau i geisio sicrhau bod gan yr ardal hon yn benodol y cyfleusterau sydd eu hangen arno i barhau i ddenu teuluoedd o bob cwr o'r DU ac yn wir y byd tra hefyd bod yn lle y gall trigolion Rest Bay ei fwynhau.

Rwyf wedi nodi rhai mannau gwyrdd nas defnyddiwyd a allai fod yn addas ar gyfer ardaloedd chwarae a byddaf yn parhau i fynd ar drywydd hyn.

| |
|---|
| |
| **<u>Gweithgareddau/Materion Eraill</u>**<br>Rwy'n rhedeg cwmni budd cymunedol sy'n rhoi cymorth i blant ac oedolion ifanc ag anghenion ychwanegol ledled Porthcawl a'r fwrdeistref yn gyffredinol. |
| **Cynghorydd R Smith** **Dyddiad: 11 Awst 2024** |